## Gweddi Sul y Pasg

Dad Nefol, ein Noddfa a'n Gobaith, caniatâ i ni gyfle newydd i ddathlu'r newydd gorfoleddus am yr Atgyfodiad.

'Fe dorrodd y wawr, sancteiddier y dydd,
Fe ddrylliwyd yr iau, mae'r Cadarn yn Rhydd,
Fe gododd y Ceidwad, boed moliant i Dduw,
Fe goncrwyd marwolaeth, mae'r Iesu yn fyw.'

Diolch felly fod y Groes yn gwbl wag, a bod y bedd benthyg yn wyrthiol o wag.

'Gyda sanctaidd wawr y bore
teithiai'r gwragedd at y bedd,
clywid ing yn sŵn eu camre,
gwelid tristwch yn eu gwedd;
Cododd Iesu!
Ocheneidiau droes yn gân.'

Paid â gadael i ni, fwy na'r gwragedd, geisio'r byw ymhlith y meirw. Mae Iesu yn fyw, a'r gwaith sydd dan ei law. Gwyddom y derfydd pob grym ond grym yr Atgyfodiad.

'Er ein gallu gweiniaid ydym,
Tlawd yw dysg heb olud ffydd,
O addoli nerthoedd daear
Ni ddaw dyn o'i rwymau'n rhydd,
Derfydd grymoedd
Arglwydd rhyngom a thydi.'

Gad i ni yn ein haddoliad heddiw mewn rhyfeddod groesawu â chalon a meddwl agored ei atgyfodiad sy'n esgor ar foliant, gan deimlo gyda'n gilydd bresenoldeb Iesu byw yn ein plith.

'Tydi yw'r ffordd, a mwy na'r ffordd i mi,
Tydi yw 'ngrym:
Pa les ymdrechu, f'Arglwydd, hebot ti,
A minnau'n ddim?
O Rymus Un, na wybu lwfwrhau,
Dy nerth a'm ceidw innau heb lesgáu.'

Gad i ni, fel aelodau o'th deulu yn y nef ac ar y ddaear, gael ein dwysbigo gyda'r newyddion da, nes teimlo mai ein hanrhydedd yw ei rannu ag eraill –'Y mae Iesu wedi ei gyfodi yn wir – Halelwia!'

Yn ei enw gogoneddus Ef y dymunwn heddiw fel pob dydd arall offrymu'r weddi hon. Amen.